# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 08.02.17 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Geraint Edwards (Cadeirydd), Dylan Thomas, Huw Davies, Ian Williams, Eleri Williams, Avril Garrod, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Geraint Micah, Louise Hughes (Cynghorydd Sirol), Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau:** Karen Shellis.

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 11.01.17 fel rhai cywir.
   **Cynnig –** Kevin Goodchild **Eilio –** Keith Carroll **Arwyddwyd –** Geraint Edwards.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (11.01.17):**
   a) **Hysbysfwrdd Newydd yn Llwyngwril –** pris wedi ei dderbyn am "self-healing rubber Pinboard"- Greenbarnes Ltd. ac wedi ei archebu. Huw Davies wedi gwneud plan o'r hysbysfwrdd, ac wedi cynnig paratoi "spec" yn barod i'r seiri coed gallu cyflwyno eu pris am wneud hysbysfwrdd.
   Aelodau yn hapus gyda hyn ac yn diolch i Huw.
   b) **Garddwest Palas Buckingham –** cais Keith Carroll wedi cael ei dderbyn – i fynychu'r Arddwest ar 16.05.17.
   c) **Arolygon Etholiadol Gwynedd -** atgoffa pawb am gyflwyniad y Comisiwn Ffiniau = 14.02.17, 6yh, yn Nolgellau.
   ➞ Louise Hughes yn cynnig mynd i'r cyflwyniad yma i gynrychioli'r Cyngor Cymuned.
   d) **Turnocks –** prisiau wedi eu ceisio am oleuadau LED i ddefnyddio hefo'r "transformer" presennol, ond dim mewn stoc ar hyn o bryd. Fe fyddent mewn cysylltiad Mis Mawrth pan fydd stoc newydd wedi dod i mewn.
   e) **Tyrchod yn y cae chwarae** – Grace a Rachel wedi llwyddo i ddal dau dwrch yn y cae chwarae – ac wedi anfon anfoneb am £20.00. Pawb yn hapus gyda'r ffordd yma o drin y broblem yn y parc.
   **Penderfyniad** ➞ siec i'w anfon iddynt, gyda diolch**.**
   f) **Rhwystrau diogelwch ar yr Allt - Friog -** dal i aros am ymateb Cyngor Gwynedd a Network Rail i'n sylwadau ynglŷn â'r broblem yma - ? Pryd fydd y gwaith yn cael ei wneud ?
   (pryderon yr aelodau wedi eu cyflwyno i Gyngor Gwynedd a Network Rail ym Mis Ionawr 2015).
   **Penderfyniad ➞ Cysylltu gydag Adran Cefnogaeth Gorfforaethol Cyngor Gwynedd iddynt allu cyflwyno'r broblem i'r Gynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambren - ar y 03.03.17 - gan obeithio y caiff y mater sylw teilwng yn y cyfarfod yma.**

5. **Gohebiaeth:**
   a) **Y Groes Goch – Cymru:** llythyr wedi ei dderbyn yn diolch am y rhodd diweddar gan y Cyngor Cymuned = £25.00.
   b) **Cyngor Gwynedd:** Rhaglen Waith Mis Chwefror 2017 wedi ei derbyn.
   c) **Gwybodaeth am Daith Gerdded:** "Walk for Life" ➞ Louise Hughes**.**
   d) **Arolygon y Comisiwn Ffiniau:** 14.02.2017 yn y Siambr, Penarlâg, Dolgellau ➞ Louise Hughes.
   e) **Un Llais Cymru:** Agenda Mis Chwefror 2017 a Chofnodion Mis Tachwedd 2016 wedi eu derbyn.
   f) **Un Llais Cymru:** Ffurflen aelodaeth ar gyfer 2017/18 – pris aelodaeth am y flwyddyn = £116.00
   **Penderfyniad** ➞ pawb yn gytûn i adnewyddu'r aelodaeth - felly siec i'w yrru i Un Llais Cymru.
   g) **Cyngor Gwynedd:** Taflen wedi ei derbyn ar gyfer Cynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambren - 03.03.17: i nodi materion yr hoffai'r Cyngor Cymuned gael ei drafod yn y cyfarfod nesaf gyda chynrychiolydd o Drenau Arriva Cymru, Network Rail a Chyngor Gwynedd
   **Penderfyniad** ➞ cwblhau'r daflen a gofyn iddynt roi sylw i'r cwynion sydd eisoes wedi eu cyflwyno ynglŷn ag:
   1. Rhwystrau diogelwch ar yr Allt, Friog
   2. Gosod goleuadau ym maes parcio'r Orsaf yn Llwyngwril.

6. **Materion Cynllunio**:

- **Cais: NP5/69/392 -** Codi un tŷ fforddiadwy - tir ger Coed Talon, Ffordd y Crynwyr, Llwyngwril
  **Penderfyniad ➞ doedd dim gwrthwynebiad gan y Cyngor Cymuned i'r cais yma.**
  Yr unig sylwadau oedd y byddai tŷ ar y safle yn tacluso'r gornel yma a gorffen y rhes o dai presennol.

7. **Adroddiad Ariannol**: Derbyniwyd Adroddiad Mis Ionawr 2017 yn gywir.
**Cynnig –** Kevin Goodchild **Eilio –** Geraint Micah **Arwyddwyd –** Geraint Edwards.

- Mandate y Cyngor Cymuned wedi eu hadnewyddu a'i chymeradwyo hefo Banc HSBC, Dolgellau.
  Bob siec angen tri arwydd ➞ Clerc a dau aelod o'r Cyngor Cymuned
  Enwau ar y Mandate: Geraint Edwards, Huw Davies, Kevin Goodchild,
  Avril Garrod a Karen Shellis, Glenda Edwards.
- Adolygiad ariannol wedi ei wneud.
- Cyngor Gwynedd wedi derbyn ein ffurflen gais yn nodi praesept o £7,800.00.
- Taliad wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd am Gynnal a Chadw'r llwybrau 2016-17 = £300.00
- Anfoneb wedi ei dderbyn gan Swyddfa Archwilio Cymru am archwilio'r cyfrifon 2016-17 = £272.40

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:**

- Adroddodd Avril Garrod ei bod wedi cynrychioli'r Cyngor Cymuned ar Bwyllgor Pîg yr Allt, yn y Ficerdy yn Llwyngwril yn ddiweddar, pan gafodd un cais o'r pentref ei drafod. Cytunwyd i roi £80.00 i'r ymgeisydd lleol a oedd ar ei drydedd flwyddyn yn y coleg. Adroddodd Avril fod tua £3,000.00 ar ôl yn y gronfa.

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol**:
Derbyniwyd adroddiad Louise Hughes …….

- Bydd Cyngor Gwynedd yn codi pris Treth y Cyngor 2017-18 - tua £50.00 y flwyddyn ar Fand D.
- Bydd rhaid i bawb sydd yn dymuno i Gyngor Gwynedd wagu eu bin brown, dalu £33.00 y flwyddyn am y pleser.
- Bydd Louise yn mynychu cyfarfod mae'r Comisiwn Ffiniau wedi ei drefnu at Nos Fercher 14.02.17 yn Nolgellau ac yn adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned beth gafodd ei drafod a'i benderfynu.

10. **Unrhyw Fater Arall**:
**Materion Cymunedol**

a) **Dŵr ar Ffordd Llabwst – Rhoslefain**
cwteri angen eu clirio'r holl ffordd i fyny i Tŷ Cerrig, gan fod y cwteri methu cymerid y dŵr ar ôl glaw trwm
**Penderfyniad** ➞ llythyr i'w yrru i Gyngor Gwynedd i ofyn iddynt roi sylw i'r cwteri o Parlla i fyny i Tŷ Cerrig.

b) **Torri gwair y Cae Chwarae –** angen pris am y flwyddyn nesaf – 2017-18
**Penderfyniad** ➞ gofyn i Clive Jones, Cyngor Gwynedd rhoi pris am wneud y gwaith am y flwyddyn nesaf 2017-18.

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher – 08.03.17 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd ……………………………………………………………………………………………… Dyddiad ……………………………**